
# RHESTR WIRIO SYMUD CARTREF

Gwnewch yn siŵr bod eich bil ynni'n gywir pan fyddwch yn symud cartref, gyda rhestr wirio National Energy Action.




FFOTOGRAFFIAETH: SHUTTERSTOCK

## SYMUD I MEWN

### YNNI

#### DARLLEN EICH MESURYDDION

Hyd yn oed os nad ydych chi'n symud i mewn ar unwaith, gwnewch hynny mor fuan ag y byddwch yn cael yr allweddi. Tynnwch luniau os gallwch chi.

#### DARGANFOD PWY YW'R CYFLENWR PRESENNOL

Dylai eich landlord allu dweud wrthych chi. Gallwch chi hefyd:

- **Chwilio am eich cod post ar y wefan 'Find my supplier'** -https://www.findmysupplier.energy/
- **Cysylltu â'r Llinell Gymorth Rhif Mesurydd:** Ffôn: 0870 608 1524, dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am i 5pm. Mae galwadau'n costio 7c y funud, ynghyd â thâl mynediad eich cwmni ffôn.
- **Gallwch ofyn am eich Cyfeirnod Pwynt Mesurydd (MPRN).** Efallai y bydd angen hwn arnoch pan fyddwch chi'n cofrestru gyda chyflenwr nwy newydd.

#### DOES DIM RHAID I CHI AROS GYDA'R CYFLENWR HWN

Mae gennych yr hawl i ddewis unrhyw gyflenwr y dymunwch.

- **Os ydych chi eisiau aros gyda'r un cyflenwr**, cysylltwch â nhw a rhowch eich manylion iddynt i gofrestru am gyfrif. Rhowch y manylion gyda'ch darlleniadau mesurydd cychwynnol. Mae hyn yn sicrhau nad ydych chi'n talu am ynni nad ydych wedi'i ddefnyddio.
- **Os nad ydych chi eisiau aros gyda'r cyflenwr presennol**, ffoniwch eich dewis gyflenwr a chofrestrwch fel cwsmer newydd.

#### MESURYDDION RHAGDALU

- **Gwiriwch gyda'r cyflenwr a oes unrhyw ddyled yn weddill ar y mesurydd** ac, os oes, gofynnwch i hon gael ei dileu gan fod y ddyled yn perthyn i'r tenant diwethaf.
- **Gofynnwch i'r cyflenwr roi cardiau/allweddi rhagdalu newydd i chi** er mwyn i chi allu ychwanegu credyd.
- **Os yw'r mesurydd allan o gredyd,** ceisiwch beidio ag ychwanegu credyd gyda'r cardiau/allweddi, sydd efallai wedi'u gadael gan y tenant blaenorol. Ffoniwch y cyflenwr yn lle. Os oes angen i chi ddefnyddio'r cardiau hyn, dywedwch hyn wrth y cyflenwr, rhag ofn y bydd unrhyw ad-daliadau dyled yn cael eu cymryd.

#### MESURYDDION CREDYD

- **Pan fyddwch yn cysylltu â'ch cyflenwr i gofrestru eich manylion mae'n debygol y byddwch yn cael eich rhoi ar eu tariff amrywiol safonol.** Gallwch ofyn a oes ganddyn nhw dariff rhatach a dylen nhw ddweud wrthych chi. Gallwch chi ddewis talu trwy ddebyd uniongyrchol, neu gydag arian parod/siec ar ôl derbyn y bil.

Mae National Energy Action (NEA) yn elusen annibynnol, rhif cofrestru. 290511. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 1853927. Cofrestredig gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian. www.nea.org.uk, 0191 261 5677, Twitter/X: @NEA_UKCharity

## MESURYDDION CLYFAR

### A alla i gael mesurydd clyfar os ydw i'n gwsmer rhagdalu?

Gallwch. Gall rhentwyr sy'n rhagdalu am eu hynni gael mesurydd clyfar. Yn wahanol i fesurydd rhagdalu traddodiadol, gellir ychwanegu credyd at fesuryddion rhagdalu clyfar ar-lein. Hefyd, gall cymorth gyda biliau ynni gan y llywodraeth neu eich cyflenwr gael ei ychwanegu at y mesurydd yn awtomatig, heb fod angen anfon taleb atoch chi drwy'r post.

### A oes angen caniatâd y landlord arnaf ar gyfer mesurydd clyfar?

Os yw'r bil ynni yn eich enw chi, gallwch chi ddewis cael mesurydd clyfar. Dylech chi roi gwybod i'ch landlord cyn gwneud y newid hwn. I helpu, mae rhai templedi ar gael y gallwch eu defnyddio i roi gwybod i'ch landlord. **https://www.smartenergygb.org/about-smart-meters/smart-meters-renters**

Os yw eich les yn dweud bod angen caniatâd gan eich landlord i newid y mesurydd yn eich eiddo, mae Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, yn dweud na ddylen nhw wrthod hyn yn afresymol.

# DŴR

**Darllenwch eich mesurydd.** (os oes un).

**Darganfod pwy yw eich cyflenwr dŵr.** Gallwch gael gwybod yma -**www.water.org.uk/customers/find-your-supplier**

**Cysylltwch â'r cyflenwr dŵr perthnasol a sefydlwch gyfrif gyda nhw.** Bydd angen i chi roi eich enw a'ch gwybodaeth gyswllt iddynt a sefydlu dull talu.

**Rhowch wybod iddynt am eich incwm,** os oes gennych blant, os ydych ar fudd-daliadau, ac os ydych yn defnyddio mwy o ddŵr oherwydd cyflwr meddygol. Mae hyn yn eu helpu i sicrhau eich bod ar y tariff mwyaf priodol a sicrhau eich bod yn cael unrhyw ostyngiadau yr ydych yn gymwys i'w derbyn.

## PWYSIG

**Mae'n bwysig tu hwnt bod eich cyflenwr ynni a dŵr a'ch Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) yn gwybod os ydych chi mewn sefyllfa fregus neu fod gennych gyflwr iechyd fel y gallan nhw gynnwys chi ar eu Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth. Mae manylion eich DNO ar eich bil ynni neu yma https://www.energynetworks.org/customers/find-my-network-operator.**

**I weld a ellir eich rhoi ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, ewch i www.thepsr.co.uk neu ffoniwch 020 7066 1000.**

**Rydych chi'n gymwys am y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth os ydych:**

- **O oedran pensiynadwy**
- **Â phlentyn dan bump oed**
- **Â chyflwr iechyd neu anabledd hirdymor**
- **Yn defnyddio offer meddygol sy'n dibynnu ar drydan neu ddŵr**
- **Wedi profi rhywbeth yn y gorffennol agos a fyddai'n eich rhoi mewn sefyllfa fregus, fel profedigaeth, colli swydd, colli incwm yn ddiweddar**

# SYMUD ALLAN

# YNNI A DŴR

**Cymerwch ddarlleniadau mesurydd ar y diwrnod y byddwch chi'n symud allan.** (tynnwch lun hefyd os gallwch chi).

**Cysylltwch â'ch cyflenwr cyn gynted â phosibl.** Dywedwch wrthyn nhw eich bod chi'n symud a rhowch eich darlleniadau mesurydd iddyn nhw. Gallan nhw roi bil terfynol i chi, fel nad ydych chi'n talu am ynni/dŵr nad ydych wedi'i ddefnyddio. Gwiriwch a oes unrhyw gredyd yn ddyledus i chi.

**Rhowch gyfeiriad anfon ymlaen i'ch cyflenwr,** fel y gallan nhw anfon y bil terfynol atoch chi.

Mae National Energy Action (NEA) yn elusen annibynnol, rhif cofrestru. 290511. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 1853927. Cofrestredig gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian. www.nea.org.uk, 0191 261 5677, Twitter/X: @NEA_UKCharity